**Etholiad Senedd Cymru 2026**
Mai 2026

## Nodiadau ar Ganllawiau Rhaglenni S4C

### 1. Rhagarweiniad

1.1 Caiff Etholiad Senedd Cymru ei gynnal ddydd Iau, 7ed o Fai 2026.

Yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad, atgoffir cynhyrchwyr o'r angen i sicrhau cydymffurfiaeth â:

- Chanllawiau S4C ar Gydymffurfiaeth Rhaglenni, Gwrthdaro Buddiannau a Diddordebau Gwleidyddol (Canllawiau S4C ar Gydymffurfiaeth Rhaglenni); a
- Chod Darlledu Ofcom (yn enwedig adrannau 5 a 6, a'r Arweiniad i adran 6).

1.2 Yn unol â Chod Ofcom, rhaid i gynhyrchwyr seilio penderfyniadau golygyddol ynghylch sylw mewn etholiadau ar dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol.

1.3 Disgwylir i gynhyrchwyr sicrhau eu bod wedi darllen a deall y Cod Darlledu a'r Arweiniad i adran 6 cyfredol, ac unrhyw grynodebau o dystiolaeth am gefnogaeth i bleidiau a gyhoeddir gan Ofcom. Dylai cynhyrchwyr sicrhau cyngor cyfreithiol annibynnol lle bo angen.

1.4 Mae'r nodiadau hyn yn cynnig canllawiau ychwanegol wrth weithredu'r gofynion hynny. Dylai cynhyrchwyr gyfeirio unrhyw ansicrwydd am weithredu'r canllawiau at y Comisiynydd Cynnwys perthnasol yn S4C yn y lle cyntaf. Mae nifer o'r canllawiau isod yn berthnasol at y cyfnod cyn yr etholiad yn ogystal â'r cyfnod etholiad ei hun.

### 2. Cyfnod Etholiad ac Ymgeiswyr

2.1 Mae'r cyfnod etholiad swyddogol ar gyfer Etholiad Senedd Cymru yn cychwyn ar ddyddiad diddymu'r Senedd neu 25 diwrnod gwaith cyn diwrnod pleidleisio (p'un bynnag sy'n gynharach) ac yn parhau tan fydd pleidleisio'n gorffen. Bydd cyfnod Etholiad Senedd Cymru yn cychwyn am 00.01 ddydd Llun, 30ain o Fawrth 2026 ac yn gorffen am 22.00 ddydd Iau, 7ed o Fai 2026.

2.2 Trwy gydol y cyfnodau a nodir uchod, rhaid i gynhyrchwyr roi gwybod i S4C o flaen llaw am gynlluniau i gynnwys gwesteion yn eu rhaglenni sydd â chysylltiad amlwg ag unrhyw blaid wleidyddol, neu sy'n debygol o fod yn ymgeisydd yn Etholiad Senedd Cymru.

2.3 Mae angen i gynhyrchwyr fod yn gyfarwydd â'r rhestr ddiweddaraf o ymgeiswyr er mwyn bod yn ymwybodol o flaen llaw o broblemau a all godi mewn cysylltiad ag unigolion fydd yn ymddangos yn eu rhaglenni.

2.4 Atgoffir cynhyrchwyr bod Canllawiau S4C ar Gydymffurfiaeth Rhaglenni (yn enwedig adran 5) yn cynnwys cyfyngiadau ar wleidyddion neu ymgeiswyr gwleidyddol yn

ymddangos ar S4C, pa un ai cyn neu yn ystod cyfnod etholiad. Ar gyfer rhaglenni 'anwleidyddol', disgwylir i bob cynhyrchydd hysbysu S4C ar unwaith os oes amheuaeth y bydd un o'u cyfranwyr, hyd yn oed os yw'r rhaglen wedi ei recordio yn barod, yn sefyll fel ymgeisydd yn yr etholiad. Ni chaniateir i unrhyw ymddangosiadau 'newydd' gael eu trefnu yn ystod cyfnod yr etholiad.

2.5 Ni chaniateir i ymgeiswyr weithredu fel cyflwynwyr newyddion, cyfwelwyr na chyflwynwyr unrhyw fath o raglen yn ystod cyfnod yr etholiad. Mae'n hynod o bwysig bod S4C yn cael gwybod mor bell o flaen llaw ag sy'n bosib os oes unrhyw un o gyflwynwyr y sianel yn bwriadu sefyll fel ymgeisydd.

2.6 Ni fydd rhestr derfynol yr ymgeiswyr ar gael tan i enwebiadau gau ar ddydd Gwener, 9fed o Ebrill 2026. Yn y cyfnod tan hynny, bydd angen i gynhyrchwyr fod yn arbennig o ofalus o ran cyfranwyr sydd wedi mynegi bwriad i sefyll yn yr etholiad, neu sy'n debygol o wneud hynny.

2.7 Mewn unrhyw adroddiad sy'n cyfeirio at ymgeiswyr cyn i enwebiadau gau, dylid esbonio mai dyna'r rhestr 'hyd yn hyn'. Rhaid i adroddiad o'r fath hefyd gyfeirio, yn y man lleiaf, at restr ar-lein o'r holl ymgeiswyr sy'n sefyll.

2.8 Ni fydd unrhyw drafod na dadansoddi materion etholiadol ar ddiwrnod pleidleisio o 00.30 nes bydd y gorsafoedd pleidleisio wedi cau am 22.00. Rhaid i unrhyw sylwadau fod yn rhai ffeithiol yn unig heb unrhyw beth a allai ddylanwadu ar y bleidlais.

2.9 Mae S4C am geisio osgoi sefyllfa lle bo rhaglenni neu gynyrchiadau S4C yn cael eu defnyddio at bwrpas ymgyrchu. Yn ystod cyfnod ymgyrchu'r pleidiau a'r cyfnod etholiad swyddogol, ni ddylid trefnu ymweliadau i set neu gynyrchiadau S4C i ymgeiswyr yn Etholiad Senedd Cymru, nag aelodau etholedig eraill. Dylid cydlynu gydag S4C (adran bartneriaethau) cyn gwahodd gwleidyddion i ymweld â chynyrchiadau S4C ar adegau eraill.

## 3. Didueddrwydd a Thegwch

3.1 Rhaid rhoi pwys dyladwy i'r ymdriniaeth o'r pleidiau ac ymgeiswyr annibynnol yn ystod cyfnod yr etholiad. Wrth benderfynu ar y lefel briodol o sylw i roi i'r pleidiau ac ymgeiswyr annibynnol, rhaid i gynhyrchwyr ystyried tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol. Dylai cynhyrchwyr gysylltu â'r Comisiynydd Newyddion a Materion Cyfoes, Sharen Griffith (sharen.griffith@s4c.cymru), am arweiniad pellach.

3.2 Disgwylir i gynhyrchwyr hefyd ystyried rhoi sylw priodol i'r pleidiau eraill ac ymgeiswyr annibynnol sydd â barnau a safbwyntiau pwysig.

3.3 Nid yw hyn yn golygu bod rhaid rhoi'r union faint o amser i bawb na bod rhaid cynnwys pob plaid ymhob eitem, ond rhaid sicrhau didueddrwydd dyladwy a thegwch dros gyfnod yr etholiad ar ei hyd.

3.4 Mae Ofcom wedi awgrymu y dylid ystyried y ffactorau canlynol wrth bwysoli'r gwahanol fathau o dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â sylw ar yr etholiad:

- rhoi mwy o bwys ar berfformiad go iawn plaid wleidyddol mewn etholiadau na data pôl piniwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod perfformiad etholiadol yn fesur o sut mae pleidleiswyr wedi gwneud eu dewis democrataidd mewn

gwirionedd. Mae hyn yn cymharu â’r ansicrwydd mwy sydd ynghlwm wrth gefnogaeth mewn polau piniwn, na fydd o reidrwydd yn trosi i bleidleisiau neu seddi mewn etholiad;

- wrth ystyried cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol, dylid ystyried ffactorau fel perfformiad etholiadol pleidiau (gan gynnwys nifer yr ymgeiswyr a gafodd eu hethol a chanran cyffredinol y bleidlais a gafwyd) mewn etholiadau cyfatebol blaenorol dros o leiaf dau gylch etholiadol;

- dylid ystyried perfformiad mewn etholiadau perthnasol blaenorol a gafodd eu cynnal yr un pryd, yn ogystal â pherfformiad mewn etholiadau blaenorol na chawsant eu cynnal ar adeg benodol;

- dylid ystyried perfformiad etholiadol pleidiau dros o leiaf dau gylch etholiadol, wrth ystyried perfformiad mewn unrhyw fath o etholiadau. Fodd bynnag, dylid rhoi llai o bwys ar dystiolaeth o berfformiad etholiadol dau gylch etholiadol neu fwy yn ôl wrth ystyried natur hanesyddol y dystiolaeth hon;

- dylid ystyried tystiolaeth mewn perthynas â gwledydd datganoledig gwahanol y DU;

- wrth roi llai o bwysau ar gefnogaeth bresennol o’i chymharu â pherfformiad go iawn, dylid rhoi pwys ar dystiolaeth o gefnogaeth bresennol sy’n wrthrychol ac yn fesuradwy. Un math o dystiolaeth wrthrychol a mesuradwy o gefnogaeth bresennol ydy data pôl piniwn, pan fydd ar gael. Efallai fod mathau eraill o dystiolaeth o gefnogaeth bresennol ond wrth ystyried tystiolaeth o’r fath dylid ystyried cysondeb a gwrthrychedd pob math o dystiolaeth; a

- dylai cynhyrchwyr bob tro gynnal asesiad cytbwys gan ystyried cyfanswm y dystiolaeth berthnasol.

3.5 Caiff y ffactorau sy’n cael eu rhestru ym mharagraff 3.4 uchod eu cynnwys yn Arweiniad Ofcom i Adran 6, yn ogystal â’u crynodeb blynyddol o dystiolaeth o gefnogaeth flaenorol a/neu gefnogaeth bresennol.

## 4. Rhaglenni – Pwyntiau Cyffredinol

4.1 Pwrpas canllawiau etholiadol yw sefydlu fframwaith sy’n galluogi cynhyrchwyr a newyddiadurwyr i gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd ddiduedd a thrylwyr, ond i weithredu hefyd mewn amgylchiadau sydd mor rhydd a chreadigol â phosibl.

4.2 Bydd cyrff etholedig eraill fel Senedd y Deyrnas Unedig yn parhau i weithredu yn ystod y cyfnod etholiad. Wrth roi sylw arferol i’r rhain, mae angen i gynhyrchwyr fod yn ymwybodol o effeithiau posib hyn ar ymgyrch Etholiad Senedd Cymru. Dylid gwneud yn glir i’r gwylwyr os yw unrhyw stori yn effeithio ar yr ymgyrch, a dylai cynhyrchwyr fod yn arbennig o ofalus i ddilyn y rheolau didueddrwydd lle bo gwleidyddion nad ydynt yn ymgeiswyr yn traethu ar faterion sy’n berthnasol i’r etholiad, e.e. Cynghorwyr Lleol ac Aelodau Senedd y DU.

4.3 Wrth drafod unrhyw stori newyddion fawr a all ddigwydd o fewn y cyfnod etholiad, rhaid trin unrhyw elfen wleidyddol yn y stori honno mewn ffordd sy’n adlewyrchu’r ffaith ein bod ynghanol ymgyrch etholiadol. Bydd yr union ffyrdd o gyflawni hyn yn dibynnu ar amgylchiadau penodol pob achos.

4.4 Mewn achosion lle mae ymgeiswyr yn sôn am ddyletswyddau neu weithgarwch nad yw'n rhan o'r ymgyrch etholiadol, dylai cynhyrchwyr sicrhau nad ydyn nhw'n cael mantais etholiadol annheg dros ymgeiswyr eraill.

4.5 Mater golygyddol yw'r drefn y mae pleidiau yn cael sylw mewn rhaglenni neu becynnau, ond mewn cyfres, dylid amrywio'r drefn os yn bosib.

4.6 Ni ddylid gofyn am gyfweliad gydag unrhyw arweinydd plaid, heb ymgynghori gyda'r Comisiynydd Cynnwys perthnasol yn S4C o flaen llaw.

4.7 Dylai cynhyrchwyr ymgynghori gyda S4C o flaen llaw hefyd os oes unrhyw fwriad i gynnwys cyfraniad gan wleidydd heb roi cyfle i wleidyddion eraill ymateb.

4.8 Dylid osgoi rhoi mantais annheg i unrhyw ymgeisydd, er enghraifft trwy gyfweld unigolion sy'n amlwg yn cefnogi ymgeisydd penodol, neu sy'n gwisgo rhoséd ag enw'r ymgeisydd arni, neu drwy ei holi o flaen posteri neu ddeunydd tebyg sy'n dwyn enw'r ymgeisydd.

4.9 Rhaid i gynhyrchwyr ymgynghori gyda S4C cyn trefnu cynulleidfa ar gyfer rhaglen, er mwyn trafod dewis y gynulleidfa a ffyrdd o sicrhau didueddrwydd.

## 5. Rhaglenni Gwleidyddol ac Etholiadol

5.1 Rhaid i bob bwletin, rhaglen neu gyfres, yn ogystal â gwasanaethau ar-lein, sicrhau didueddrwydd tuag at bleidiau ac ymgeiswyr, ar draws yr ymgyrch gyfan. Os mai dim ond un rhaglen a ddarlledir, rhaid cyflawni hyn o fewn y rhaglen honno. Mewn cyfres, gellir ei gyflawni ar draws y gyfres gyfan.

5.2 Fe ddylai unrhyw gyfres sy'n rhoi sylw i'r etholiad mewn mwy nag un rhaglen atgoffa'r gynulleidfa o gynnwys sydd wedi ei ddarlledu eisoes, ac o gynnwys sydd eto i ddod yn y gyfres, er mwyn ei gwneud yn glir fod didueddrwydd yn cael ei gyflawni dros gyfnod o amser.

## 6. Etholaethau a Rhanbarthau

6.1 Rhaid sicrhau didueddrwydd dyladwy mewn adroddiad neu drafodaeth ar etholaethau neu mewn adroddiadau a thrafodaethau ar ardaloedd etholiadol.

6.2 Mewn adroddiadau neu drafodaethau stiwdio ar etholaethau, mae'n bosib cynnwys naill ai ymgeiswyr neu gynrychiolwyr y pleidiau. Os yw ymgeisydd yn cymryd rhan mewn eitem ynglŷn â'i etholaeth, rhaid i gynhyrchwyr gynnig cyfle i gymryd rhan yn y fath eitem i'r holl ymgeiswyr o fewn yr etholaeth neu ardal etholiadol sydd yn cynrychioli pleidiau â chefnogaeth etholiadol sylweddol mewn etholiadau blaenorol, neu lle ceir tystiolaeth o gefnogaeth bresennol sylweddol, yn yr etholaeth. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ymgeiswyr annibynnol.

6.3 Os yw unrhyw ymgeisydd yn methu â chymryd rhan, dylid cynnig y cyfle i gynrychiolydd y blaid yn yr etholaeth, gan esbonio i'r gwylwyr pam fod yr ymgeisydd yn methu â chyfrannu. Lle nad yw'r ymgeisydd yn medru'r Gymraeg, yna gellir cynnig y cyfle i ymgeisydd mewn etholaeth arall neu gynrychiolydd arall y blaid. Os yw'r ymgeisydd neu'r

blaid yn gwrthod neu'n methu â chymryd rhan, mae'n dal yn bosib i'r eitem fynd yn ei blaen, ond o ran tegwch, dylid sicrhau fod yr amrywiaeth barn ar bynciau'r etholaeth yn cael eu hadlewyrchu.

6.4 Os bydd ymgeisydd yn cymryd rhan mewn rhaglen ar unrhyw fater ar ôl galw'r etholiad, rhaid peidio â rhoi cyfle iddo ef/hi i wneud pwyntiau am yr etholaeth, neu bwyntiau am ardal etholiadol ynghylch yr etholaeth neu ardal etholiadol lle mae ef/hi yn sefyll, os na roddir cyfle tebyg i unrhyw ymgeiswyr eraill. Dylid atgoffa ymgeiswyr sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau teledu byw na chaniateir iddyn nhw gyfeirio at etholaethau. Os ydynt yn gwneud hynny, rhaid rhoi stop arnynt ar unwaith.

6.5 Rhaid cynnwys mewn unrhyw adroddiad neu drafodaeth ar etholaeth neu ardal etholiadol a ddarlledir ar ôl cau'r enwebiadau restr o'r holl ymgeiswyr sy'n sefyll. Dylai'r rhestr nodi eu henwau cyntaf, cyfenwau ac enw'r blaid y maent yn ei chynrychioli neu, os ydynt yn sefyll yn annibynnol, y ffaith eu bod yn ymgeisydd annibynnol. Rhaid cyfleu hyn drwy sain a/neu lun. Nid yw cyfeirio'r gwylwyr at wefan yn ddigonol yn y sefyllfa hon.

## 7. Rhaglenni Eraill

7.1 Mae'n rhaid i gynhyrchwyr unrhyw raglen 'anwleidyddol' nad yw fel arfer yn trafod materion gwleidyddol neu'n gwahodd gwleidyddion i gyfrannu, ymgynghori â'r Comisiynydd Cynnwys o flaen llaw cyn bwrw ymlaen i drefnu unrhyw gynnwys etholiadol.

7.2 Mae pob un o'r canllawiau yn y ddogfen hon yn berthnasol i raglenni o'r fath hefyd.

## 8. Arolygon Barn

8.1 Dylid ymgynghori â'r Comisiynydd Cynnwys o flaen llaw cyn comisiynu unrhyw arolwg barn ar wleidyddiaeth neu faterion cyhoeddus eraill.

8.2 Yn ystod y cyfnod etholiad, ni ddylid darlledu manylion am nifer y galwadau, e-byst, negeseuon testun neu unrhyw negeseuon eraill sy'n cael eu derbyn am unrhyw agwedd o'r ymgyrch etholiadol.

8.3 Ni chaniateir cyhoeddi arolwg barn ar unrhyw fater etholiadol ar y diwrnod pleidleisio nes bydd y gorsafoedd pleidleisio wedi cau. Tra bod y bleidlais yn dal ar agor ar y diwrnod hwnnw, mae darlledu unrhyw beth am y ffordd y mae pobl wedi pleidleisio yn drosedd.

8.4 Gall gohebwyr dynnu sylw at arolygon barn mewn pecynnau ac adroddiadau (ond nid pan fo'r blychau pleidleisio ar agor), ond ni ddylid rhoi gormod o bwys iddyn nhw. Mae'n bwysig defnyddio iaith briodol wrth gyfeirio at arolygon barn e.e. mae'r arolwg yn "awgrymu", NID "profi" neu "ddangos".

8.5 Rhaid i gynhyrchwyr fod yn arbennig o ofalus gyda 'vox pops' mewn cyfnod etholiad. Rhaid gwneud yn glir nad arwydd o gryfder barn ar bwnc yw cyfweliadau o'r fath, ond yn hytrach, gyfraniadau sy'n rhoi lliw i ddadl. Rhaid bod yn ofalus hefyd o ran lleoliad y 'vox pops', a sicrhau eu bod yn cynrychioli gwahanol agweddau o ddadl.

8.6 Rhaid ymchwilio'n drylwyr i darddiad deunydd a gaiff ei gynnig fel cyfraniadau oddi wrth y gynulleidfa a dylai cynhyrchwyr gymryd cyfrifoldeb dros eu dilysrwydd. Dylid disgrifio cyfranwyr yn glir, yn enwedig lle bo cyfraniadau o'r fath yn dod gan ymgeiswyr.

## 9. Ar-lein a Chyfryngau Cymdeithasol

9.1 Mae'r holl ganllawiau ar gyfer rhaglenni teledu yn berthnasol yn yr un modd i holl ddeunydd etholiadol ar y we ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

9.2 Ni ddylai Wynebau a Phersonél Golygyddol (fel y'u diffinnir yng Nghanllawiau S4C ar Gydymffurfiaeth Rhaglenni) beryglu didueddrwydd neu enw da S4C trwy fynegi safbwyntiau ar faterion gwleidyddol ar wefannau neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol. Atgoffir cynhyrchwyr o Bolisi Cyfryngau Cymdeithasol S4C i'r perwyl hwn.

## 10. Y Drefn i Ddelio â Chwynion, Sylwadau ac Ymholiadau Gwleidyddol

10.1 Nod Trefn Cwynion S4C (http://www.s4c.cymru/cy/cysylltu--ni/page/17088/sut-i-gwyno-i-s4c/) yw ceisio sicrhau bod cwynion yn cael eu trin mor gyflym a chyflawn â phosib. Gall cwyn gyrraedd drwy wefan, dros y ffôn, drwy'r Wifren Gwylwyr neu drwy'r post.

10.2 Os bydd cwmni cynhyrchu yn derbyn unrhyw gŵyn, sylw neu ymholiad ar fater gwleidyddol gan unigolyn, plaid neu sefydliad yn ymwneud â rhaglen neu wasanaeth S4C, disgwylir iddynt ei anfon yn syth at:
Elin Morris, Prif Swyddog Gweithredu S4C, Canolfan S4C: Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ (03305 880414; elin.morris@s4c.cymru) yn hytrach na cheisio ei ateb eu hunain.

**Mawrth 2026**